

Prentisiaeth mewn Rheoli

y rhaglen 'acumen' rheoli

HYD

14

MIS

Mae'r rhaglen 'acumen' rheoli wedi'i hanelu at is-reolwyr llinell yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, yn amrywio o fusnesau bach a chanolig lleol bach i sefydliadau mawr, cenedlaethol.

Yn aml iawn, cymryd y cam cyntaf o fod yn aelod o'r tîm i fod yn rheolwr yw'r cam fwyaf heriol mewn gyrfa, ond rydym ni'n aml yn disgwyl i rywun gymryd y cam hwn heb unrhyw drafferth gan ei fod yn perfformio'n dda yn ei rôl flaenorol.

Mae'r rhaglen 'acumen' rheoli yn galluogi unigolion i gymryd y cam yn rhwydd, ac os mae'r unigolyn wedi bod mewn swydd reoli ers cryn amser, bydd y rhaglen yn dadansoddi ei sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth i ganfod sut y gallai wella canlyniadau'r tîm yn sylweddol.

Mae'r rhaglen yn defnyddio cynnwys rhaglen gyfarwyddiadol (adnoddau dysgu) i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd, ynghyd â dulliau cymell anghyfarwyddiadol i sicrhau bod rheolwyr yn dysgu drostynt eu hunain ac yn rhoi gwybodaeth a sgiliau newydd ar waith yn effeithiol yn y gweithle.

Sut rydym ni'n darparu'r Brentisiaeth hon

Caiff y rhaglen hon ei darparu ar sail un i un gan eich Tiwtor Rheolaeth penodedig eich hun.

Byddant yn cwrdd â chi bob mis (wyneb yn wyneb neu'n rhithwir) i ddarparu addysg a hyfforddiant i'ch helpu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd a'ch tywys trwy'r rhaglen.

Yna byddant yn asesu eich cymhwysedd trwy arsylwi arnoch yn rhoi'r sgiliau newydd ar waith yn y gweithle a'ch helpu i ddatblygu portffolio o dystiolaeth i brofi eich bod wedi cwrdd â gofynion y Brentisiaeth.

Cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn y Brentisiaeth hon

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn cyflawni'r cymwysterau canlynol:

- Prentisiaeth Lefel 3 mewn Rheolaeth
- Diploma Lefel 3 ILM mewn Rheolaeth
- Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif Lefel 2 (os oes angen)
- Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu Lefel 2 (os oes angen)
- Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd Digidol Lefel 2 (os oes angen)



Sesiwn 1

Sut i reoli eich datblygiad personol a phroffesiynol eich hun

Ar ddechrau Sesiwn 1, bydd eich Tiwtor Rheolaeth yn eich tywys trwy'r gwahanol ffyrdd o reoli eich datblygiad a'ch amcanion personol eich hun. Bydd hyn yn eich helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r ffynonellau a'r tueddiadau sy'n dylanwadu ar eich datblygiad proffesiynol a phersonol. Bydd yn eich helpu i ddeall pa fathau o ddatblygiad sydd fwyaf addas i chi wrth nodi'ch anghenion sgiliau presennol ac at y dyfodol.

Byddwch yn dysgu sut i fonitro ac adolygu eich datblygiad eich hun trwy:

- Ddefnyddio nodau SMART
- Gwerthusiadau un i un
- Cofnodion DPP
- Adolygiadau Datblygu

Sesiwn 2

Deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau rheoli

Ar ddechrau Sesiwn 2, bydd eich Tiwtor Rheolaeth yn eich cynorthwyo i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'ch rôl benodol a'ch cyfraniad chi a'ch tîm i'r sefydliad a'i amcanion. Byddwch yn dadansoddi'r hawliau a'r cyfrifoldebau yn y gweithle i chi a'ch tîm.

Byddwch chi'n dysgu:

- Sut i gael gafael ar wybodaeth a chyngor perthnasol yn ymwneud â'ch diwydiant, galwedigaeth, hyfforddiant a llwybrau gyrfa
- Gofynion rheoliadol, codau ymarfer sefydliadol a meysydd o bryder cyhoeddus yn eich diwydiant

Sesiwn 3

Sut i reoli gwrthdaro o fewn eich tîm (uned ddewisol)

Ar ddechrau Sesiwn 3, bydd eich Tiwtor Rheolaeth yn gweithio gyda chi i ganfod y rhesymau dros wrthdaro o fewn eich tîm. Bydd yn eich helpu i ddeall y sgiliau a'r technegau angenrheidiol i ddelio'n effeithiol â gwrthdaro wrth iddo ddigwydd yn eich tîm. Byddwch yn dysgu am wahanol ddulliau o reoli gwrthdaro a sut y gellir eu defnyddio i wella'r amgylchedd gwaith.

Byddwch chi'n dysgu:

- Sut i asesu difrifoldeb unrhyw wrthdaro
- Camau priodol i'w cymryd i leihau gwrthdaro o fewn eich tîm
- Asesu pryd mae'n briodol i fynd i'r afael â gwrthdaro ar lefel unigol ac ar lefel tîm
- Sut i gyfathrebu camau gweithredol perthnasol i'ch tîm
- Sut i ddogfennu eich camau gweithredu

Sesiwn 4

Rheoli pobl

Ar ddechrau Sesiwn 4, bydd eich Tiwtor Rheolaeth yn eich tywys trwy'r adnoddau a'r technegau ar gyfer rheoli pobl yn effeithiol. Bydd yn eich helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut i reoli a datblygu potensial eich tîm.

Byddwch chi'n dysgu:

- Rôl AD, ei swyddogaeth a'r prosesau o fewn eich sefydliad
- Y gwahanol fathau o gytundeb cyflogaeth
- Cyfrifoldebau'r sefydliad dros Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI).

Sesiwn 5

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (uned ddewisol)

Ar ddechrau Sesiwn 5, bydd eich Tiwtor Rheolaeth yn eich cynorthwyo i ddeall y gwahaniaeth rhwng Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bydd yn eich helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o effaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws polisiau eich sefydliad a'r canlyniadau posibl yn deillio o dorri'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb.

Byddwch chi'n dysgu:

- Sut i sicrhau bod eich tîm yn ymwybodol o gyfrifoldebau yn eich gweithle
- Sut i sicrhau bod eich tîm yn cael y wybodaeth ddiweddaraf

Sesiwn 6

Egwyddorion Busnes

Ar ddechrau Sesiwn 6, bydd eich Tiwtor Rheolaeth yn eich tywys trwy egwyddorion busnes. Bydd yn eich helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o wahanol amgylcheddau busnes a sut maen nhw'n gweithio. Byddwch yn edrych ar wahanol farchnadoedd busnes ac yn nodi sut mae eich nodau sefydliadol eich hun yn cael eu llunio gan y ffordd y mae eich marchnad yn gweithredu.

Byddwch yn dysgu pwysigrwydd:

- Arloesi mewn busnes
- Rheolaeth ariannol
- Cyllidebu
- Gwasanaeth cwsmer
- Gwerthu a marchnata

Sesiwn 7

Sut i gydweithio'n effeithiol ag adrannau eraill (uned ddewisol)

Ar ddechrau Sesiwn 7, bydd eich Tiwtor Rheolaeth yn eich cynorthwyo i adnabod yr adrannau yr ydych yn cydweithio â nhw ynghyd â natur y berthynas rhwng yr adrannau hynny. Bydd yn eich helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut i gydweithio'n effeithiol, manteision ac anfanteision cydweithio a'r hyn y dylid ei ystyried er mwyn sicrhau cydweithrediad effeithiol.

Byddwch chi'n dysgu:

- Sut i ddadansoddi cytundebau lefel gwasanaeth mewnol
- Sut mae'r cytundebau hyn yn cyfrannu at gyflawni amcanion sefydliadol

Sesiwn 8

Rheoli perfformiad (uned ddewisol)

Ar ddechrau Sesiwn 8, bydd eich Tiwtor Rheolaeth yn eich tywys drwy ystod o dechnegau i reoli a monitro perfformiad unigolyn. Bydd yn eich helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut i gymell gweithwyr sy'n tanberfformio a'r hyn sy'n achosi gweithwyr i danberfformio.

Byddwch yn dysgu:

- Sut i weithredu gwahanol dechnegau ysgogol
- Sut i ddirprwyo'n effeithiol i'r aelod priodol o'r tîm
- Sut i gytuno ar amcanion SMART yn erbyn perfformiad aelodau'r tîm
- Sut i fonitro perfformiad unigolion yn erbyn eu hamcanion dros gyfnod o amser

Sesiwn 9

Egwyddorion arweinyddiaeth a rheolaeth

Ar ddechrau Sesiwn 9, bydd eich Tiwtor Rheolaeth yn eich tywys drwy egwyddorion arweinyddiaeth a rheolaeth. Bydd yn eich helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r gwahanol ffyrdd y gellir rheoli gweithwyr a sut i sicrhau bod y penderfyniadau yr ydych chi'n eu gwneud yn cyd-fynd gyda'ch amcanion sefydliadol.

Byddwch chi'n dysgu:

- Sut i ddefnyddio damcaniaethau a modelau rheoli i ysgogi eich tîm
- Beth yw cyfrifoldebau rheolwr o ran cynllunio a rheoli gwaith tuag at amcanion sefydliadol

Sesiwn 10

Rheoli datblygiad yn y gweithle (uned ddewisol)

Ar ddechrau Sesiwn 10, bydd eich Tiwtor Rheolaeth yn gweithio gyda chi i ganfod gwahanol ffyrdd o reoli a monitro datblygiad unigolyn yn y gweithle. Bydd yn eich helpu i ddeall sut i gynnal arfarniad a'r hyn y dylid ei drafod. Byddwch yn edrych ar ffyrdd o roi adborth a chefnogaeth i'ch tîm, a pha dechnegau hyfforddi a chymhell y gellir eu defnyddio yn y gweithle.

Bydd hyn yn adeiladu ar sesiwn 8 wrth i chi ddarparu tystiolaeth o sut yr ydych chi wedi cytuno ar dargedau SMART gyda'ch tîm yn ymwneud â'u gofynion datblygu ac wedi monitro cynnydd pob unigolyn tuag at yr amcanion a gytunwyd.

Byddwch hefyd yn edrych ar ffyrdd o fonitro ac adolygu eu cynlluniau datblygu gan ddefnyddio nodau SMART i'w cyflawni; gellir gwneud hyn trwy gyfarfodydd un i un, arfarniadau, cofnodion DPP ac Adolygiadau Datblygu.

Sesiwn 11

Rheoli a gwella perfformiad eich tîm

Ar ddechrau Sesiwn 11, bydd eich Tiwtor Rheolaeth yn gweithio gyda chi i ganfod gwahanol ffyrdd o wella perfformiad eich tîm. Bydd yn eich helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau eich tîm ac adeiladu ar sesiwn 8, gan edrych ar sut rydych chi'n dirprwyo a dyrannu gwaith yn effeithiol yn unol â'r cryfderau hynny. Bydd yn eich helpu i ddeall sut i feincnodi perfformiad a thechnegau ansawdd i sicrhau bod eich tîm yn perfformio.

Byddwch yn rhoi hyn ar waith trwy dystiolaeth i ddangos sut rydych chi wedi dyrannu gwaith ac wedi cyfleu amcanion, cyfrifoldebau a blaenoriaethau'r tîm. Byddwch yn dangos sut y cafodd y rhain eu monitro'n effeithiol i wella perfformiad eich tîm trwy gydol y rhaglen.

Sesiwn 12 - Cwblhau a mireinio gweithgareddau yn y gweithle, myfyrio ac adolygu

Sesiwn 13 - Cwblhau a mireinio gweithgareddau yn y gweithle, myfyrio ac adolygu

Sesiwn 14 - Cwblhau a mireinio gweithgareddau yn y gwaith, myfyrio ac adolygu

Noder - Mae'r rhaglen hon wedi cael ei llunio i fodloni rheolau cyfuno ar gyfer Diploma ILM Lefel 3 mewn Rheolaeth. Mae ystod o unedau dewisol pellach ar gael er mwyn teilwra'r rhaglen hon i fodloni eich gofynion, ar yr amod eich bod yn bodloni'r rheolau cyfuniad.

Cau'r bwlch rhwng perfformiad a photensial

Pam dewis Prentisiaeth ILM?

Yr ILM yw sefydliad datblygu rheolaeth mwyaf y DU.

Mae cymwysterau ILM yn gosod y meincnod ar gyfer arbenigedd arweinyddiaeth a rheolaeth ryngwladol.

I gael copi o amlinelliad y cwrs hwn yn Gymraeg, cysylltwch â ni
marketing@t2group.co.uk

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni yn:  029 2079 9133

 www.t2group.co.uk

 info@t2group.co.uk

